# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Mawrth 2024

Amser: 14.00 - 14.47

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13739

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Peredur Owen Griffiths AS<br>Buffy Williams AS<br>Altaf Hussain AS (yn lle Joel James AS) |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Lorna Scurlock (Clerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriad gan Joel James AS.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Roedd Altaf Hussain AS yn bresennol yn y cyfarfod, yn dirprwyo ar ran Joel James AS.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-06-1385 Cynnal arolwg diduedd o’r trigolion sy'n byw yn ardaloedd y cynllun peilot ar gyfer terfyn cyflymder o 20mya

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod Trafnidiaeth Cymru eisoes yn cynnal gweithrediad monitro helaeth. Fel rhan o'r data yma, bydd data'n cael ei gasglu am hyd at bum mlynedd ar ôl gweithredu, a fydd yn cynnwys arolygon ansoddol o agweddau. Cyhoeddwyd yr adroddiad monitro terfynol ar gyfer yr ardaloedd peilot ar 20 Chwefror. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gau’r ddeiseb a diolch i’r deisebydd.

### 2.2 P-06-1386 Dylid cyflwyno ffordd i etholwyr bleidleisio i gael gwared ar eu AS cyn diwedd eu tymor

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd waith Pwyllgor y Bil Diwygio.

Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i dynnu sylw at y ddeiseb hon a gofyn iddi gael ei hystyried fel tystiolaeth wrth ystyried adalw Aelodau yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, cytunodd yr Aelodau i gau’r ddeiseb a diolch i’r deisebydd.

### 2.3 P-06-1391 Dylid rheoleiddio'r sector steilio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd i ofyn i’r ddeiseb hon a’r wybodaeth a ddarparwyd gael eu hystyried yn dystiolaeth yn yr ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 1 Mawrth 2024, ar drwyddedu sefydliadau lles anifeiliaid.

## 2.4 P-06-1392 Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i wneud cais am ddadl ar y mater. Bu sawl deiseb yn codi pryderon am y Cod ADY – a'r broses o'i roi ar waith – a chyfeirir at y deisebau eraill pan fydd y ddeiseb hon yn cael ei thrafod.

## 2.5 P-06-1396 Cyflwyno trwydded e-sigaréts ar gyfer siopau e-sigaréts pwrpasol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu'n ôl at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn gofyn am ragor o wybodaeth am archwiliad Llywodraeth Cymru o gynllun trwyddedu ar gyfer manwerthwyr tybaco ac anwedd. Cytunodd yr Aelodau i aros am ymateb y Dirprwy Weinidog cyn penderfynu a ddylid cynnal unrhyw waith pellach ar y ddeiseb.

At hynny, cytunwyd i ofyn cwestiwn ar wahân ‘r Dirprwy Weinidog am stondinau shisha.

## 2.6 P-06-1401 Rhaid sicrhau na fydd pob bwyd a gaffaelir yn gyhoeddus yng Nghymru byth yn fegan neu'n llysieuol yn unig

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ac yng ngoleuni ymateb y Gweinidog, nid yw'n glir beth arall y gall y Pwyllgor ei wneud i fwrw ymlaen â'r ddeiseb. Cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

## 2.7 P-06-1402 Diwygio deddfwriaeth yng Nghymru i alinio â Lloegr mewn perthynas â chynyddu'r dreth gyngor yn ormodol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd ymateb y Gweinidog gan ddweud nad oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno refferenda ar gynnydd yn y dreth gyngor, a bod cynlluniau eisoes ar waith i ymateb i godiadau gormodol, os oes angen. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

### 2.8 P-06-1403 Ailystyried Toriadau i Gyllid Ôl-raddedig a Chynyddu Benthyciadau Doethuriaeth i Gyfateb ag Ariantal Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI)

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu'n ôl at y Gweinidog Addysg i ofyn am eglurhad ynghylch pwyntiau pellach y deisebydd ynghylch unrhyw asesiad o effaith y toriadau ac a oes data ar gael ar ganlyniadau myfyrwyr blaenorol a allai lywio'r drafodaeth.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-06-1294 Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru y tu ôl

Mynegodd yr aelodau eu tristwch fod iechyd Tassia wedi gwaethygu'n sylweddol ac roedd eu meddyliau gyda Tassia a'i hanwyliaid yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mynegodd yr aelodau pa mor ysbrydoledig y bu ei hymrwymiad a'i hymroddiad i wella gofal canser. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at hanes a llwyddiant y ddeiseb a'r hyn y mae Tassia wedi'i gyflawni drwy ei deiseb ac ymgyrchu ehangach i wella prosesau cynllunio, a gwasanaethau ar gyfer canser metastatig y fron.

Cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i Tassia am fod yn gatalydd ar gyfer newid, ac yn hyrwyddwr ar gyfer pob menyw â chanser y fron sydd, wedyn yn datblygu canser metastatig y fron yng Nghymru.

### 3.2 P-06-1350 Ailagor Ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn ar unwaith

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd yr ohebiaeth gan y Bwrdd Iechyd, Cymdeithas yr Ysbytai Cymunedol a'r deisebydd.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu'n ôl at y Bwrdd Iechyd i godi pryderon y deisebydd a Chymdeithas yr Ysbytai Cymunedol, a gofyn yn benodol am y canlynol:

- diweddariad pellach ar ymdrechion recriwtio, gan gynnwys ymdrechion i recriwtio y tu allan i'r ardal (yn y DU);
- manylion penderfyniad y Bwrdd Iechyd i dynnu'r hawl i ofyn cwestiynau i'r cyhoedd mewn cyfarfodydd cyffredinol yn ôl.

### 3.3 P-06-1380 Bathodyn glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis gydol oes

Datganodd Jack Sargeant AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae wedi cyfarfod â'r deisebwyr ar adegau ac mae'n gefnogol iawn i gynsail y ddeiseb.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd yr ohebiaeth ddiweddar a ddaeth i law oddi wrth Mark Isherwoord AS.

Cytunodd yr Aelodau i gymryd amser i fyfyrio ar yr ohebiaeth a gafwyd, ac i ysgrifennu'n ôl at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd gyda'r cwestiynau a godwyd gan y deisebydd, a'r llythyr a gafwyd oddi wrth Mark Isherwood AS.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.